

Law Commission
Reforming the law

# Camddefnyddio Delweddau Personol

## Crynodeb o’r Adroddiad Terfynol

# Cyflwyniad

## Camddefnyddio delweddau personol

Mae’n haws nag erioed tynnu a rhannu delweddau. Gall yr eitemau rydyn ni’n eu defnyddio bob dydd - ffonau clyfar, gliniaduron, dyfeisiau tabled, hyd yn oed setiau teledu clyfar - recordio delweddau. Drwy ddim ond clicio botwm gellir anfon llun neu ffilm yn syth at ffrind ddau gant o filltiroedd i ffwrdd, neu ei rannu â miliwn o bobl ar unwaith ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn hefyd yn golygu ei bod yn haws nag erioed tynnu neu rannu delweddau o bobl eraill heb eu caniatâd. Mae hyn yn destun pryder go iawn pan fydd y delweddau hynny’n rhai personol; er enghraifft, lluniau noeth, fideos o weithredoedd rhywiol neu luniau sy’n cael eu tynnu’n gyfrinachol o dan ddillad rhywun.

Gall tynnu a rhannu delweddau personol heb ganiatâd gael effaith sylweddol a pharhaol ar ddioddefwyr. Rydym yn galw hyn yn gamddefnyddio delweddau personol. **Mae’n torri annibyniaeth rywiol, preifatrwydd corfforol ac urddas** y person a ddangosir. Gall pobl sydd wedi dioddef yn sgil camddefnyddio delweddau personol wynebu **niwed difrifol a sylweddol** fel niwed seicolegol, dirywiad mewn iechyd corfforol, a cholled ariannol. Mae’r gyfraith yn cydnabod bod camddefnyddio delweddau personol yn **niweidiol ac yn anghyfiawn**. Dros amser, datblygwyd clytwaith o droseddau i geisio mynd i’r afael â natur ddatblygol camddefnyddio delweddau personol.

**28,201**

Cofnododd yr heddlu o leiaf **28,201** o achosion o ddatgelu delweddau rhywiol preifat heb ganiatâd rhwng Ebrill 2015 a Rhagfyr 2021.[1]

**1 o bob 14**

Mae **1 o bob 14** oedolyn yng Nghymru a Lloegr wedi derbyn bygythiad i rannu delweddau personol.[2]

**38 miliwn**

Ymwelwyd â gwefan sy’n defnyddio offeryn i ddadwisgo menywod **38 miliwn** gwaith yn ystod 8 mis cyntaf 2021.[3]

1 https://www.independent.co.uk/news/uk/england-wales-police-data-refuge-b2080235.html
2 https://www.refuge.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/The-Naked-Threat-Report.pdf
3 https://www.huffingtonpost.co.uk/entry/deepfake-tool-nudify-women_n_6112d765e4b005ed49053822

## Prosiect Comisiwn y Gyfraith

Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth i ddiwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Yn 2019, gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Gomisiwn y Gyfraith gynnal prosiect a oedd yn asesu pa mor ddigonol yw'r gyfraith trosedd mewn perthynas â thynnu, gwneud a rhannu delweddau personol heb ganiatâd.

Gwnaethom gynnal adolygiad trylwyr o'r gyfraith, ac arweiniodd hynny at gyhoeddi ein papur ymgynghori ar 26 Chwefror 2021. Gwnaethom ganfod nifer o fylchau a chyfyngiadau yn y clytwaith presennol o droseddau, a gwnaethom gynnig fframwaith cyfreithiol mwy strwythuredig a fyddai'n amddiffyn dioddefwyr yn well.

### Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o dri mis, ac fe ddaeth hwnnw i ben ar 27 Mai 2021. Cawsom 354 o ymatebion ysgrifenedig gan aelodau o'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau gan gynnwys gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, y farnwriaeth, seneddwyr, yr heddlu, academyddion, gweithwyr proffesiynol meddygol a grwpiau cymorth i ddioddefwyr. Roeddem hefyd wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgynghori. Mae'r broses ymgynghori hon wedi llywio ein hargymhellion terfynol, ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r rheini sydd wedi cwrdd â ni neu wedi ymateb i'n hymgynghoriad.

Roedd cefnogaeth sylweddol i ddiwygio'r ffordd yr ymdrinnir â chamddefnyddio delweddau personol yn y gyfraith trosedd. Dangosodd y broses ymgynghori fod angen fframwaith o droseddau sy'n fwy clir a chynhwysfawr yn ogystal ag amddiffyniad gwell a mwy cyson i bobl sydd wedi dioddef yn sgil camddefnyddio delweddau personol.

### Adroddiad

Rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad gyda'n hargymhellion terfynol erbyn hyn. Mae'r crynodeb hwn yw rhoi trosolwg o'n prif argymhellion. Mae manylion llawn ein holl argymhellion, yr ymatebion gan ymgyngoreion, a thrafodaeth ynghylch y materion polisi perthnasol, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, ac ar gael ar ein gwefan: **https://www.lawcom.gov.uk/project/taking-making-and-sharing-intimate-images-without-consent/**

# Y gyfraith bresennol a'r angen i ddiwygio

Ar hyn o bryd, nid oes yr un drosedd yng Nghymru a Lloegr sy'n rheoli'r broses o dynnu, gwneud a rhannu delweddau personol heb ganiatâd. Yn lle hynny mae gennym glytwaith o droseddau sydd wedi datblygu dros amser. Mae pedair trosedd sy'n mynd i'r afael yn benodol â rhai mathau o gamddefnyddio delweddau personol.

## Voyeuriaeth

- Adran 67 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.
- Mae'n troseddoli recordio delwedd o berson yn gwneud gweithred breifat heb ganiatâd os gwneir hynny gyda'r bwriad y byddai rhywun yn edrych ar y ddelwedd er mwyn cael boddhad rhywiol.
- Mae'n gyfyngedig i ddelweddau lle mae'r sawl a ddangosir mewn lle y byddai, dan yr amgylchiadau, yn rhesymol iddo ddisgwyl y byddai'n cael preifatrwydd.

## Rhannu delweddau rhywiol preifat ("y drosedd datgelu") a bygythiadau

- Adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015.
- Mae'n troseddoli rhannu delwedd rywiol breifat o rywun arall, heb ganiatâd yr unigolyn hwnnw, os gwneir hynny gyda'r bwriad o achosi gofid i'r person hwnnw.
- Fe'i diwygiwyd yn ddiweddar i droseddoli bygwth rhannu delwedd rywiol breifat.
- Mae delweddau sy'n cael eu haddasu i fod yn breifat ac yn rhywiol wedi'u heithrio.

## Tynnu llun/fideo o dan ddillad rhywun

- Adran 67A o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.
- Mae'n troseddoli recordio delwedd, heb ganiatâd, o organau rhywiol neu ben-ôl rhywun arall dan ei ddillad pan na fyddai modd eu gweld fel arall, pe bai hynny'n cael ei wneud gyda'r bwriad y bydd rhywun yn edrych ar y ddelwedd naill ai er mwyn bychanu, dychryn neu beri gofid i'r sawl sy'n cael ei bortreadu, neu er mwyn cael boddhad rhywiol.
- Fe'i cyflwynwyd i fynd i'r afael ag ymddygiad penodol lle mae rhywun yn tynnu llun/fideo o dan ddillad rhywun, sydd wedi'i eithrio o'r drosedd voyeuriaeth gan fod hyn yn aml yn digwydd i ddioddefwyr mewn lle cyhoeddus lle nad ydynt yn "gwneud gweithred breifat".
- Nid yw'n cynnwys delweddau o fronnau.

## Voyeuriaeth bwydo ar y fron

- Cyflwynwyd gan adran 48 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 sy'n diwygio adran 67A o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.
- Mae'n troseddoli recordio, heb ganiatâd, delwedd o rywun yn bwydo ar y fron gyda'r bwriad y bydd rhywun yn edrych ar y ddelwedd naill ai er mwyn bychanu, dychryn neu beri gofid i'r sawl a ddangosir, neu er mwyn cael boddhad rhywiol.
- Mae'n cynnwys tynnu lluniau o rywun sy'n bwydo ar y fron neu sy'n addasu ei dillad ar ôl bwydo ar y fron, ni waeth beth sy'n cael ei weld yn y ddelwedd.

## Troseddau eraill

Mae amrywiaeth o droseddau eraill nad ydynt wedi'u hanelu'n benodol at gamddefnyddio delweddau personol; mae'r rhain weithiau'n cael eu defnyddio pan fydd ffeithiau penodol yn caniatáu hynny. Mae hyn yn cynnwys troseddau cyfathrebu, blacmel, ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, aflonyddu a stelcio, sarhau gwedduster cyhoeddus, a meddu ar ddelwedd bornograffig eithafol.

## Bylchau a chyfyngiadau yn y gyfraith bresennol

### Cymhelliant

Cyfyngir y troseddau presennol i ddau gymhelliad. Ar hyn o bryd nid yw'n cynnwys tynnu neu rannu lluniau/fideos heb ganiatâd os gwneir hynny am hwyl, er budd ariannol, neu lle nad oes cymhelliant penodol.

### Natur y ddelwedd

Ar hyn o bryd nid yw'n cynnwys rhai delweddau a dynnir mewn mannau cyhoeddus (fel tynnu llun o ymosodiad rhywiol yn gyhoeddus) a thynnu llun/fideo i lawr blows rhywun.

### Rhannu delweddau

Ar hyn o bryd nid yw'n cynnwys rhannu delweddau ffug-fanwl rhywiol, na rhannu â'r sawl sy'n cael ei bortreadu, hyd yn oed os oedd bwriad i beri gofid i'r dioddefwr.

### Aros yn ddienw a gorchmynion ategol eraill

Nid yw pob un sy'n dioddef yn sgil camddefnyddio delweddau personol yn gymwys yn awtomatig i aros yn ddienw neu i gael troi at fesurau arbennig. Gall argaeledd gorchmynion ategol hefyd ddibynnu ar ba drosedd y cyhuddir rhywun ohoni.

Mae'r gwahaniaethau rhwng y troseddau o fewn y cwmpas, y diffiniad, a'r gorchmynion sydd ar gael yn achosi anawsterau o ran deall a chymhwyso'r gyfraith, ac yn arwain at amddiffyniad anghyson i ddioddefwyr. Mae'r bylchau a nodwyd yn golygu nad yw ymddygiad niweidiol, beius yn cael ei droseddoli'n briodol ac mae dioddefwyr yn cael eu gadael heb gymorth effeithiol.

I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell fframwaith newydd o droseddau sy'n defnyddio un diffiniad cyson o ddelwedd bersonol, sy'n cynnwys yr ystod lawn o gymhellion cyflawnwyr, ac sy'n defnyddio mesurau diogelu ar gyfer dioddefwyr yn gyson.

# Y troseddau a argymhellir

Rydym yn argymell strwythur haenog o droseddau sy'n dechrau gyda throsedd "sylfaenol" ac yna tair trosedd sy'n fwy difrifol, ac sy'n adlewyrchu mwy o feiusrwydd y troseddwr. Gall pumed trosedd o osod offer fod yn berthnasol i drosedd o dynnu delwedd bersonol heb ganiatâd ar unrhyw un o'r haenau.

### Trosedd sylfaenol

**Dylai fod yn drosedd i berson D fynd ati'n fwriadol i dynnu neu rannu delwedd bersonol o V os:**

(a) nad yw V yn cydsynio i dynnu neu rannu'r ddelwedd; ac

(b) nad yw D yn credu'n rhesymol bod V yn cydsynio.

Dylai fod yn amddiffyniad os oedd gan D esgus rhesymol.

| Trosedd boddhad rhywiol | Trosedd codi cywilydd, ofn, neu drallod | Trosedd bygwth |
|---|---|---|
| Dylai fod yn drosedd i berson D fynd ati'n fwriadol i dynnu neu rannu delwedd bersonol o V os:<br>(a) nad yw V yn cydsynio;<br>(b) (b) nad yw D yn credu'n rhesymol bod V yn cydsynio; a<br>(c) (c) bod D yn gwneud hynny gyda'r bwriad y bydd D, neu drydydd person, er mwyn cael boddhad rhywiol, yn edrych ar y ddelwedd o V. | Dylai fod yn drosedd i berson D fynd ati'n fwriadol i dynnu neu rannu delwedd bersonol o V os:<br>(a) nad yw V yn cydsynio; a<br>(b) bod D yn gwneud hynny gyda'r bwriad o godi cywilydd, ofn neu drallod i V, neu gyda'r bwriad y bydd D neu berson arall yn edrych ar y ddelwedd at ddiben codi cywilydd, ofn neu drallod i V. | Dylai fod yn drosedd i berson D fygwth rhannu delwedd bersonol o V os:<br>(a) ydy D yn bwriadu peri i V ofni y bydd y bygythiad yn cael ei gyflawni; neu<br>(b) nad yw D yn poeni a fydd V yn ofni y bydd y bygythiad yn cael ei gyflawni. |

### Trosedd gosod

Dylai fod yn drosedd i berson D osod cyfarpar gyda'r bwriad o alluogi D neu rywun arall i gyflawni'r drosedd o dynnu delwedd bersonol heb ganiatâd.

# Trosedd sylfaenol

Mae pob un o'r troseddau presennol sy'n ymwneud â delweddau personol yn nodi bod yn rhaid i'r cyflawnwr fod wedi gweithredu gyda bwriad penodol: naill ai i gael boddhad rhywiol neu i godi cywilydd, ofn neu drallod i'r dioddefwr. Rydym wedi clywed yn gyson bod hyn yn gwneud y troseddau presennol yn rhy gyfyngol.

Yn gyntaf, mae'n golygu y gall unrhyw un sy'n tynnu neu'n rhannu delwedd bersonol heb ganiatâd am unrhyw reswm neu gymhelliant arall osgoi atebolrwydd troseddol. Mae camddefnyddio delweddau personol yn parhau am nifer o resymau, ac weithiau am ddim rheswm amlwg o gwbl. Gall delweddau personol gael eu tynnu am jôc, eu rhannu yn gyfnewid am wahanol ddelweddau, am fudd ariannol, er mwyn ennill statws cymdeithasol, neu ddim ond am fod rhywun yn teimlo fel gwneud hynny. Mae'r ymddygiad yn achosi niwed i'r dioddefwr, ni waeth beth yw ei gymhelliant neu ddiffyg cymhelliant.

Yn ail, mae'n golygu y gall erlyniadau fethu, neu hyd yn oed beidio â chael eu dechrau, os yw'n anodd darparu tystiolaeth o fwriad penodol. Hyd yn oed os bydd cyflawnwr yn cyfaddef i'r weithred o dynnu neu rannu delwedd heb ganiatâd, os na ellir profi ei fod wedi gwneud hynny er mwyn achosi trallod neu i gael boddhad rhywiol, ni chaiff ei erlyn.

Mae hyn yn anfoddhaol. Mae'r ffaith bod delwedd wedi cael ei thynnu neu ei rhannu heb ganiatâd yn ddigon niweidiol ac anghyfiawn i gyfiawnhau gwneud yr unigolyn yn droseddwr. Roedd dros 300 o ymgyngoreion o blaid cyflwyno trosedd a fyddai'n troseddoli tynnu neu rannu delwedd bersonol heb ganiatâd, ni waeth beth yw'r cymhelliant.

Felly, rydym yn argymell y dylai fod yn drosedd i fynd ati'n fwriadol i dynnu neu rannu delwedd bersonol heb ganiatâd, a heb gred resymol mewn cydsyniad, ni waeth beth yw'r cymhelliant.

I gyflawni'r drosedd hon, rhaid i'r ddelwedd bersonol fod wedi cael ei thynnu neu ei rhannu'n fwriadol. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, nad yw'n drosedd os ydy rhywun yn rhannu delwedd bersonol mewn camgymeriad, neu'n tynnu llun heb sylweddoli bod rhywun noeth yn y cefndir.

Dylai'r drosedd sylfaenol fod yn drosedd diannod yn unig (sy'n golygu mai dim ond mewn llys ynadon y gellir ei rhoi ar brawf), gyda dedfryd fwyaf o chwe mis o garchar.

## Amgylchiadau lle nad yw tynnu neu rannu delwedd bersonol heb ganiatâd yn gyfystyr â "chamddefnyddio" ac felly gellir ei gyfiawnhau

Bydd achosion, hyd yn oed lle nad oes caniatâd, lle na fydd tynnu neu rannu delwedd bersonol heb ganiatâd yr unigolyn sy'n cael ei bortreadu yn cyfiawnhau ei wneud yn droseddwr. Dyma lle mae amgylchiadau a natur yr ymddygiad yn golygu nad yw'n foesol anghywir nac yn niweidiol, neu fod y niwed a achosir yn fach iawn.

Bydd aelodau balch o'r teulu a ffrindiau yn aml yn tynnu ac yn rhannu lluniau noeth neu rannol noeth o blant ifanc fel llun o fabi newydd-anedig sy'n cael ei lwytho i fyny i dudalen cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyhoeddi'r enedigaeth. Mae hyn yn ymddygiad normal nad ystyrir yn niweidiol. Er na chafwyd caniatâd y plentyn ifanc sy'n cael ei bortreadu, nid yw tynnu neu rannu lluniau fel hyn yn ymddygiad troseddol. Rydym yn argymell bod tynnu neu rannu lluniau fel hyn yn cael ei eithrio'n benodol o'r drosedd sylfaenol. Rydym hefyd yn argymell eithrio delweddau personol o blentyn sy'n cael eu tynnu neu rannu mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol y plentyn, lle cafwyd caniatâd y rhieni.

Mewn cyd-destunau eraill, gellir cyfiawnhau tynnu neu rannu lluniau heb ganiatâd os yw'n cael ei wneud at ddiben cyfreithlon, neu er budd y cyhoedd. Er enghraifft; pan fydd angen i ddelwedd o ymosodiad rhywiol gael ei rhannu fel tystiolaeth mewn achos llys ond nad oes modd cysylltu â'r dioddefwr i gael caniatâd, neu lle bo angen tynnu llun o anaf i'r fron fel bod modd rhoi triniaeth feddygol gyflym i glaf sy'n anymwybodol.

Er ei fod yn annhebygol, rydym yn credu y bydd achlysuron prin pan fydd tynnu neu rannu delwedd bersonol heb ganiatâd er budd y cyhoedd ac felly gellir ei gyfiawnhau. Gallai hyn fod, er enghraifft, pan fydd delwedd o gyfarfyddiad rhywiol yr unig ffordd o brofi stori newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol sylweddol. Nid yw hyn yn golygu y bydd rhannu delwedd a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn rhywbeth a fyddai o fudd y cyhoedd.

**Ni ddylid cael person D yn euog o'r drosedd sylfaenol os oes esgus rhesymol dros ei ymddygiad. Dylai'r amddiffyniad ar gyfer esgus rhesymol gynnwys y canlynol:**

(a) tynnu neu rannu roedd D yn credu'n rhesymol bod angen gwneud hyn at ddibenion atal, canfod, ymchwilio neu erlyn troseddau;

(b) tynnu neu rannu roedd D yn credu'n rhesymol bod angen gwneud hyn at ddibenion achosion cyfreithiol neu reoliadol;

(c) rhannu roedd D yn credu'n rhesymol bod angen gwneud hyn er mwyn gweinyddu cyfiawnder;

(d) tynnu neu rannu roedd D yn credu'n rhesymol bod angen gwneud hyn at ddibenion meddygol, gwyddonol neu addysgol dilys; a

(e) thynnu neu rannu rhywbeth a oedd er budd y cyhoedd.

Dylai D ysgwyddo'r baich profi cyfreithiol i sefydlu'r amddiffyniad yn ôl pwysau tebygolrwydd.

## Troseddau mwy difrifol sy'n adlewyrchu ymddygiad mwy beius

Mae'n bwysig cael trosedd sylfaenol sy'n galluogi i ystod eang o ymddygiadau sy'n ymwneud â chamddefnyddio lluniau gael ei droseddoli'n briodol. Credwn hefyd fod angen cael troseddau mwy difrifol, gyda dedfrydau uwch ar gael, ar gyfer achosion lle mae cyflawnwr wedi gweithredu gyda bwriad penodol sy'n gwneud ei ymddygiad yn fwy beius. Yn ystod yr ymgynghoriad, gwnaethom ystyried ystod o gymhellion a gofyn pa rai oedd yn briodol i'w troseddoli'n fwy difrifol. Daethom i'r casgliad pan fydd rhywun yn gweithredu gyda bwriad penodol i gael boddhad rhywiol, i godi cywilydd, ofn neu drallod i'r dioddefwr, neu i fygwth y dioddefwr, fod hynny'n ymddygiad mwy difrifol ac fe ddylid adlewyrchu hynny mewn trosedd fwy difrifol a dedfryd a allai fod yn uwch. Roedd cefnogaeth gan y rhan fwyaf o'r ymgyngoreion i gydnabod ymddygiad mwy beius fel hyn.

Ni fwriedir i'r dull hwn adlewyrchu'r niwed a achosir i'r dioddefwr gan ymddygiad gwahanol. Gwyddom nad yw lefel a math y niwed a achosir yn perthyn yn uniongyrchol i'r cymhelliant y tu ôl i'r weithred. Nid yw ychwaith wedi'i fwriadu i adlewyrchu'r mathau mwyaf cyffredin o gamddefnyddio delweddau personol. Yn hytrach, bwriad y dull hwn yn unig yw adlewyrchu'r lefel uwch o feiusrwydd pan fydd cyflawnwr yn gweithredu gyda bwriad penodol. Mae hyn yn debyg i'r dull mewn meysydd eraill o gyfraith trosedd gan gynnwys ymosod, a llofruddiaeth a dynladdiad.

Dylai'r tair trosedd isod fod yn droseddau "neillffordd". Mae hyn yn golygu y gellir eu clywed naill ai mewn llys ynadon, neu yn Llys y Goron gyda rheithgor. Dylid cael dedfryd fwyaf o ddwy neu dair blynedd o garchar ar dditiad (yn Llys y Goron), neu ar euogfarn ddiannod (mewn llys ynadon) i gyfnod heb fod yn fwy na'r terfyn cyffredinol mewn llys ynadon.



### Trosedd codi cywilydd, ofn, neu drallod

Cytunodd yr ymgyngoreion fod tynnu neu rannu delwedd bersonol heb ganiatâd gyda'r bwriad o godi cywilydd, ofn neu drallod i rywun yn ymddygiad arbennig o faleisus. Mae'n briodol troseddoli'r ymddygiad hwn ar wahân oherwydd gall haeddu dedfryd uwch na'r hyn a fyddai ar gael ar gyfer trosedd sylfaenol. Rydym yn argymell y dylai fod yn drosedd fwy difrifol i dynnu neu rannu delwedd bersonol heb ganiatâd gyda'r bwriad o godi cywilydd, ofn neu drallod i'r sawl sy'n cael ei bortreadu.



## Trosedd boddhad rhywiol

Pan fydd rhywun wedi ceisio cael boddhad rhywiol drwy dorri annibyniaeth rywiol neu breifatrwydd corfforol rhywun arall, mae'n briodol gwneud ei ymddygiad yn drosedd fwy difrifol. Fel uchod, gall yr ymddygiad hwn gyfiawnhau dedfryd uwch na'r drosedd sylfaenol.

Ar hyn o bryd, dim ond tynnu delwedd bersonol gyda'r bwriad o gael boddhad rhywiol sy'n drosedd; nid yw'n drosedd ei rhannu er mwyn cael boddhad rhywiol. Credwn y gall y bwriad penodol hwn fod yn bresennol wrth dynnu a rhannu delweddau, a gall fod yr un mor feius. Rydym yn argymell y dylai fod yn drosedd fwy difrifol i dynnu neu rannu delwedd bersonol gyda'r bwriad y bydd rhywun yn edrych ar y ddelwedd er mwyn cael boddhad rhywiol.

## Trosedd bygwth

Yn dilyn ymgyrch gyhoeddus lwyddiannus i ddiwygio'r gyfraith,[4] mae bellach yn drosedd bygwth datgelu delwedd rywiol breifat os caiff hynny ei wneud gyda'r bwriad o achosi trallod. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn dangos cefnogaeth sylweddol dros droseddoli'r weithred o fygwth rhannu delweddau personol. Felly, rydym yn argymell y dylai fframwaith newydd o droseddau gynnwys trosedd bygwth rhannu.

Rydym yn deall bod bygythiadau'n aml yn cael eu gwneud yng nghyd-destun perthnasoedd camdriniol, fel ffordd o reoli a bod mewn grym. Mae hefyd yn cael ei wneud i orfodi'r dioddefwr i roi arian neu fwy o ddelweddau. Efallai y bydd hefyd yn cael ei wneud am "hwyl", neu i geisio atal rhywun rhag rhoi gwybod am gamdriniaeth. Mae bygwth rhywun yn ymddygiad digon beius i gyfiawnhau trosedd fwy difrifol. Dylai fod yn drosedd pan fydd rhywun yn bygwth rhannu delwedd bersonol, gyda'r bwriad o achosi i'r dioddefwr ofni y bydd y bygythiad yn cael ei gyflawni, neu fod yn ddi-hid ynghylch a fydd yn ofni hynny. Nid ydym yn credu bod angen gofyn am dystiolaeth bod y bygythiad wedi'i wneud gydag unrhyw fwriad arall, fel achosi trallod.

Dylai'r drosedd bygwth rhannu gynnwys bygythiadau ymhlyg ac amodol. Dylai hefyd gynnwys bygwth rhannu delwedd bersonol nad yw'n bodoli ac amgylchiadau eraill lle ei bod hi'n amhosibl i'r diffynnydd gyflawni'r bygythiad.

Dylai fod yn drosedd p'un a wnaed y bygythiad i rannu delwedd i'r sawl sy'n cael ei bortreadu yn y ddelwedd, neu i drydydd parti.

4 Refuge, Naked Threats, 2020, **https://www.refuge.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/The-Naked-Threat-Report.pdf**

## Trosedd gosod

Yn adran 67 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, mae'n drosedd ar wahân i osod cyfarpar er mwyn cyflawni trosedd o wylio rhywun yn gwneud gweithred breifat. Ar hyn o bryd nid yw'n drosedd gosod offer er mwyn cyflawni trosedd o recordio rhywun yn gwneud gweithred breifat. Nid ydym yn credu bod modd cyfiawnhau'r bwlch hwn.

Clywsom gan ymgyngoreion am gamerâu cudd yn cael eu gosod mewn mannau fel eiddo Airbnb neu giwbiclau toiled er mwyn tynnu delweddau personol yn gyfrinachol. Nid yw bob amser yn bosibl penderfynu a gafodd delwedd ei thynnu ond mae'r weithred o osod offer er mwyn gwneud hynny'n drosedd.

Dylai fod yn drosedd i berson osod cyfarpar gyda'r bwriad o alluogi ei hun neu rywun arall i gyflawni trosedd o dynnu delwedd bersonol heb ganiatâd. Gall hyn fod yn berthnasol i'r drosedd sylfaenol, neu'r troseddau bwriad penodol os oes tystiolaeth bod yr offer wedi'i osod i dynnu llun gyda'r bwriad perthnasol. Trosedd diannod yn unig fyddai'r drosedd gosod hon lle mae'n berthnasol i'r drosedd sylfaenol, a throsedd neillffordd lle mae'n berthnasol i'r troseddau bwriad penodol.



# Aros yn ddienw a mesurau arbennig



## Aros yn ddienw

Dylai pob achwynydd yn gysylltiedig â'r troseddau delweddau personol newydd gael aros yn ddienw'n awtomatig am oes. Ar hyn o bryd, dim ond i ddioddefwyr troseddau voyeuriaeth a thynnu llun/fideo o dan ddillad y mae hyn yn berthnasol, ond nid i ddioddefwyr y drosedd datgelu. Nid oes rheswm y gellir ei gyfiawnhau dros hyn ac fe ddylai pob dioddefwr gael yr un amddiffyniad. Bydd hyn yn helpu i rymuso dioddefwyr i roi gwybod am erlyniadau, a'u cefnogi.



## Mesurau arbennig

Dylai achwynwyr yn gysylltiedig â'r troseddau delweddau personol newydd fod yn gymwys yn awtomatig i gael mesurau arbennig i'w cefnogi i roi tystiolaeth mewn treial. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, eu galluogi i roi tystiolaeth y tu ôl i sgrin, drwy gyswllt fideo, neu drwy recordio eu tystiolaeth ymlaen llaw.

Dylai'r cyfyngiadau ar groesholi achwynwyr ynghylch troseddau rhywiol gael eu hymestyn i bob achwynydd yn gysylltiedig â'r troseddau delweddau personol newydd. Mae cyfyngiadau o'r fath yn cynnwys gwahardd unrhyw un sydd wedi'i gyhuddo o drosedd rhywiol rhag croesholi'r achwynydd ei hun, a chyfyngiadau ar gyflwyno tystiolaeth o'i ymddygiad rhywiol, neu holi'r achwynydd am hynny.

# Gorchmynion ategol

### Gofynion Hysbysu

Rydym yn argymell y dylid cymhwyso gofynion hysbysu (a elwir yn aml yn “rhoi rhywun ar gofrestr troseddwyr rhyw”) yn awtomatig ar gyfer y drosedd boddhad rhywiol, pan gyrhaeddir trothwy difrifoldeb priodol. Byddai’r trothwy difrifoldeb yn cael ei fodloni pan gaiff troseddwr sy’n oedolyn ei ddyfarnu’n euog a’i ddedfrydu i gyfnod yn y carchar. Mae hyn yn adlewyrchu’r trothwy presennol ar gyfer y drosedd voyeuriaeth. Mae gofynion hysbysu yn fesur diogelu’r cyhoedd sy’n galluogi’r heddlu i fonitro a lleoli troseddwyr, ac atal aildroseddu. Mae’r rhain ymysg y gorchmynion mwyaf ymwthiol y gellir eu defnyddio felly mae’n bwysig cyfyngu ar eu defnydd i achosion o natur rywiol ddifrifol.

### Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol

Rydym yn argymell y dylai Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol fod ar gael i lys eu defnyddio pan fydd hynny’n briodol ar gyfer yr holl droseddau sy’n ymwneud â delweddau personol. Gellir defnyddio gorchmynion o’r fath i osod gwaharddiadau ar droseddwr er mwyn atal niwed rhywiol, er enghraifft drwy gyfyngu ar deithio dramor neu gael mynediad i’r rhyngrwyd. Ni ellir gwneud y rhain oni bai fod y llys o’r farn bod angen gwneud hynny er mwyn diogelu’r cyhoedd rhag niwed rhywiol.

# Diffiniad o ddelwedd bersonol

Fideo neu ffotograff yw "**delwedd**".

Mae delwedd "**bersonol**" yn ddelwedd sydd naill ai'n rhywiol, yn noeth neu'n rhannol noeth, neu o rywun yn mynd i'r tŷ bach.

### Rhywiol

Mae'n dangos rhywbeth y byddai person rhesymol yn ei ystyried yn rhywiol oherwydd ei natur; neu o'i ystyried gyda'i gilydd, rhywbeth y byddai person rhesymol yn ei ystyried yn rhywiol.

### Noeth neu rannol noeth

Mae'n golygu delweddau o'r cyfan, neu ran, o organau rhywiol, pen-ôl neu fronnau person, boed yn noeth, neu wedi'u gorchuddio â dillad isaf neu unrhyw beth sy'n cael ei wisgo fel dillad isaf, neu lle bo'r dioddefwr yn fwy noeth neu gyflwr tebyg na phe bai'n gwisgo dim ond dillad isaf. Mae hyn yn cynnwys delweddau sydd wedi'u haddasu i ymddangos fel pe baent yn fwy noeth neu gyflwr tebyg.

### Mynd i'r tŷ bach

Mae'n golygu delweddau o rywun yn y weithred o basio dŵr neu ysgarthu, a delweddau o ofal personol yn gysylltiedig â rhedlif organau rhywiol neu refrol, ysgarthu neu basio dŵr.

Mae'r diffiniadau hyn yn adlewyrchu'r delweddau hynny a fyddai'n torri annibyniaeth rywiol neu breifatrwydd corfforol rhywun pan fyddant yn cael eu tynnu neu eu rhannu heb ganiatâd. Mae'r delweddau hyn yn dangos rhywbeth sy'n breifat ac yn bersonol.

Mae'r diffiniadau'n canolbwyntio ar yr hyn y mae'r ddelwedd ei hun yn ei ddangos, yn hytrach na statws, gwisg nac amgylchiadau'r unigolyn pan dynnwyd y llun. Mae hyn yn golygu y cynhwysir delweddau o dan ddillad rhywun ac i lawr blows rhywun; er enghraifft, os ydy delwedd yn dangos bron rhywun wedi'i gorchuddio gan ddillad isaf, bydd yn ddelwedd bersonol hyd yn oed os oedd yr unigolyn yn gwisgo top adeg tynnu'r llun.

Dylai'r diffiniadau hyn fod yn berthnasol i bob trosedd delweddau personol er mwyn sicrhau cysondeb.

### Ddim fel arfer yn cael eu gweld ar stryd gyhoeddus

Bydd rhai delweddau a fydd yn dod o dan y diffiniadau uchod, ond sy'n llai preifat neu bersonol. Gall delweddau o gusanu fod yn "rhywiol". Gall delwedd o frest plentyn ifanc neu oedolyn gwrywaidd fod yn "rhannol noeth". Fodd bynnag, deellir yn gyffredinol eu bod yn llai personol na delwedd sy'n dangos rhywun yn cael cyfathrach rywiol, neu sy'n dangos bronnau oedolyn benywaidd. Y rheswm am hyn yw bod cusanu, neu frest plant ac oedolion gwrywaidd, yn rhywbeth a welid yn aml ar strydoedd cyhoeddus. Dydyn nhw ddim angen amddiffyniad y gyfraith trosedd yn yr un modd â delweddau mwy personol.

Ni ddylai'r diffiniad o bersonol gynnwys delweddau sydd ond yn dangos rhywbeth sydd fel arfer yn cael ei weld ar stryd gyhoeddus, ac eithrio delweddau o ferched yn bwydo ar y fron.

## Delweddau personol wedi'u haddasu

Dylai fod yn drosedd rhannu delwedd bersonol heb ganiatâd, boed y ddelwedd honno'n wreiddiol, wedi'i haddasu neu wedi'i chreu mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys lluniau ffug-fanwl a delweddau sydd wedi'u haddasu i fod yn "noeth" lle mae ap yn tynnu dillad rhywun yn ddigidol o ddelwedd nad yw'n bersonol er mwyn gwneud i'r person ymddangos fel petai'n noeth. Cyn belled â'i fod yn ymddangos fel delwedd bersonol o'r dioddefwr, bydd yn cael ei chynnwys yn y drosedd rhannu.

## Cyfyngiadau – delweddau nad ydynt yn dod o dan droseddau delweddau personol

Mae'r troseddau delweddau personol yn canolbwyntio ar ddelweddau sy'n dangos y dioddefwr mewn ffordd gwbl bersonol. Mae llawer o ymddygiadau pryderus eraill sy'n ymwneud â delweddau na fyddai'n cael eu cynnwys o fewn ein diffiniad ni o bersonol. Mae rhai yn anghyfiawn, ond ddim yn ddigon fel eu bod yn galw am ymateb troseddol. Mae eraill mor niweidiol fel y dylent gael eu troseddoli, ond yn cael eu troseddoli'n well gan droseddau eraill; rydym yn egluro sut a phryd y gall troseddau eraill fod yn berthnasol yn yr adroddiad.

### Tynnu lluniau slei

Delweddau sy'n cael eu tynnu, fel arfer mewn mannau cyhoeddus, o bobl mewn dillad, sy'n "chwyddo i mewn" ar ran o'r corff fel y pen-ôl, y bronnau, neu'r ardal biwbig. Mae hwn yn ymddygiad annymunol, sy'n aml wedi'i wreiddio mewn casineb at wragedd sy'n gallu gwneud i ddioddefwyr deimlo'n llai diogel dim ond yn bodoli yn gyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r delweddau eu hunain mor bersonol fel eu bod nhw eu hunain yn cyfiawnhau ymateb cyfraith trosedd.

### Delweddau sy'n datgelu rhywioldeb

Delweddau a ddefnyddir i gyfleu neges am y sawl sy'n cael ei bortreadu, fel arfer ei rywioldeb neu hunaniaeth drawsryweddol. Gall hyn arwain at amrywiaeth o niwed; o'r lleiaf i roi'r dioddefwr mewn perygl o niwed difrifol gan gynnwys trais corfforol. Pan fydd delwedd ond yn breifat oherwydd y neges mae'n ceisio'i chyfleu, nid yw'r un ymddygiad â chamddefnyddio delweddau personol.

### Delweddau o semen

Delweddau sy'n dangos semen ar ben delwedd nad yw'n bersonol er mwyn awgrymu bod y ddelwedd wedi cael ei defnyddio at ddibenion mastyrbio. Mae'r delweddau hyn yn cyfleu rhywioldeb y sawl sy'n cyflawni'r drosedd, ac nid agosrwydd at y sawl a bortreadir. Mae delweddau o semen yn drosedd ac yn gallu bod yn niweidiol, ond yn wahanol i ddelweddau sy'n portreadu'r dioddefwr mewn ffordd bersonol.

**Troseddau eraill a allai fod yn berthnasol:**

- Troseddau cyfathrebu
- Aflonyddu
- Sarhau gwedduster cyhoeddus

## Delweddau sy'n cael eu hystyried yn bersonol mewn grwpiau crefyddol penodol

Nid yw'r troseddau delweddau personol presennol yn cynnwys delweddau sydd ond yn cael eu hystyried yn bersonol o fewn rhai grwpiau crefyddol, ond nid yn ôl safonau "Gorllewinol" o ran bod yn breifat a rhywiol. Rydym wedi clywed tystiolaeth y gallai pobl o rai grwpiau crefyddol neu ddiwylliannol gael eu niweidio'n ddifrifol yn sgil datgelu delweddau na fyddai'n cael eu cynnwys yn ein diffiniad o natur bersonol, er enghraifft delweddau o unigolyn nad yw'n gwisgo'r dillad y byddai fel arfer yn ei wisgo'n gyhoeddus at ddibenion gwyleidd-dra (yn seiliedig ar gredoau crefyddol), a dangos rhannau o'r corff na fyddai fel arfer yn cael eu datgelu'n gyhoeddus.

Gofynnwyd i'r ymgyngoreion am eu barn ar y mater hwn a chafwyd ymatebion ystyriol a oedd yn cydnabod y niwed difrifol y gall tynnu neu rannu delweddau o'r fath ei achosi. Clywsom hefyd mor anodd fyddai ceisio diffinio'r mathau o ddelweddau y gellid eu cynnwys. Byddai'n golygu cyflwyno lefel o oddrychedd o ran yr hyn y mae "personol" yn ei olygu. Gallai hynny olygu bod y troseddau'n dod yn rhy eang ac ansicr. Mae'n bwysig iawn bod ffiniau'r troseddau hyn mor glir â phosibl. Gallai cyflwyno goddrychedd ar sail credoau crefyddol yn unig hefyd arwain at anghysondeb. Efallai fod rhesymau heblaw am gredoau crefyddol pam fod gan un person ddiffiniad gwahanol o bersonol i rywun arall. Byddai'n anodd yn ymarferol sefydlu a oedd y sawl a oedd wedi tynnu neu rannu'r ddelwedd yn gwybod ei bod yn cael ei hystyried yn bersonol. Ond heb hyn, nid yw ei ymddygiad yn ddigon beius. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn credu ei bod yn briodol cynnwys unrhyw ddelweddau eraill yn y drosedd nad ydynt yn rhywiol, yn noeth, yn rhannol noeth nac yn mynd i'r tŷ bach.

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn hefyd wedi codi materion cysylltiedig. Yn gyntaf, roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at y rhwystrau ychwanegol a wynebir gan y rhai sy'n dioddef yn sgil camddefnyddio delweddau personol gan grwpiau ar y cyrion wrth geisio cael mynediad at y system cyfiawnder troseddol. Mae'n briodol cael gwared ar y rhwystrau hyn, ond mae terfyn i'r hyn y gall diwygio troseddau penodol ei gyflawni yn y cyswllt hwn. Mae addysgu, hyfforddi a darparu adnoddau i grwpiau cymorth cymunedol a'r sector gan ac ar gyfer hefyd yn bwysig er mwyn gwella profiadau grwpiau ar y cyrion.

Yn ail, roeddem yn arbennig o bryderus pan glywsom sut mae delweddau personol yn cael eu defnyddio yng nghyd-destun camddefnyddio ar sail anrhydedd. Clywsom y gellir rhannu delweddau sy'n dangos rhywun sy'n ymddwyn y tu allan i'r hyn sy'n cael ei ystyried yn norm cymunedol (fel delwedd sy'n dangos cusan rhwng pobl o gymunedau gwahanol, neu bobl yn yfed alcohol) i roi'r sawl sy'n cael ei bortreadu mewn perygl o niwed difrifol am ei gamweddau ymddangosiadol. Nid yw'r ymddygiad niweidiol a beius hwn yn gyfyngedig i ddelweddau personol, na hyd yn oed i ddelweddau o gwbl. Mae rhannu cynnwys proffil canlyn ar-lein neu roi gwybod i rywun am leoliad ffisegol y dioddefwr hefyd yn gallu cael yr un effaith. Gofynnwn i'r Llywodraeth ystyried a oes angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r ymddygiad niweidiol hwn.

# Profion elfen gyhoeddus

Mae camddefnyddio delweddau personol yn golygu torri ar breifatrwydd dioddefwyr. Mae preifatrwydd yn cael ei dorri, a niwed yn digwydd, pan fydd delwedd yn cael ei thynnu heb ganiatâd mewn lleoliad preifat, neu ddelwedd a gafodd ei rhannu'n breifat wedyn yn cael ei rhannu y tu allan i'r gofod preifat hwnnw. Os oes elfen gyhoeddus sylweddol yn perthyn i'r ddelwedd bersonol, efallai na fydd tynnu neu rannu'r llun yn torri ar breifatrwydd yn yr un ffordd.

Rydym yn argymell dau brawf elfen gyhoeddus a fyddai'n tynnu allan o'r ymddygiad troseddol lle nad yw tynnu neu rannu delweddau yn ddigon troseddol oherwydd ei fod yn llai anghyfiawn, niweidiol a beius.


## Prawf 1: Delweddau sy'n cael eu tynnu yn gyhoeddus

Weithiau mae pobl yn fodlon bod yn noeth, mynd i'r tŷ bach, neu gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol yn gyhoeddus. Mae noethwibiwr mewn gêm bêl-droed neu brotestiwr noeth yn gwybod y bydd aelodau o'r cyhoedd yn eu gweld, ac y byddant yn tynnu sylw oherwydd eu bod yn noeth. Nid oes ganddynt ddisgwyliad rhesymol o breifatrwydd mewn perthynas â rhywun yn tynnu eu llun. Nid yw'n briodol gwneud rhywun yn droseddwr am dynnu neu rannu delwedd o ddigwyddiad o'r fath.

Os ydy rhywun yn noeth yn gyhoeddus yn erbyn ei ewyllys, neu os ymosodir yn rhywiol arno ef/hi yn gyhoeddus, byddai tynnu neu rannu llun o hynny yn tarfu'n fawr arnynt ac yn gallu achosi niwed sylweddol. Mae'n briodol gwneud rhywun yn droseddwr os ydynt yn tynnu neu'n rhannu delwedd o dan amgylchiadau o'r fath, oni bai fod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros wneud hynny, megis darparu tystiolaeth i'r heddlu.

Mae rhai amgylchiadau lle gallai rhywun fod yn noeth neu'n rhannol noeth o'i wirfodd yn gyhoeddus, ond gallant o hyd ddisgwyl preifatrwydd yn rhesymol o ran tynnu llun ohonynt. Dylai pobl bob amser allu newid mewn ystafell newid gyhoeddus, neu fwydo ar y fron yn gyhoeddus, heb i rywun dynnu llun ohonynt.

Rydym yn argymell y prawf hwn i dynnu allan o'r troseddau y delweddau sy'n cael eu tynnu'n gyhoeddus lle nad oes gan y person a bortreadir ddisgwyliad rhesymol o breifatrwydd mewn perthynas â chael tynnu llun.



**Pan fydd person D yn tynnu neu'n rhannu delwedd bersonol o V heb ganiatâd V, os:**

(1) cafodd y ddelwedd bersonol ei thynnu mewn man lle'r oedd aelodau o'r cyhoedd yn cael mynediad (boed drwy dalu ffi ai peidio); ac

(2) roedd V, neu roedd D yn credu'n rhesymol bod V, yn cymryd rhan yn wirfoddol mewn gweithgarwch rhywiol, yn mynd i'r tŷ bach, neu'n noeth neu'n rhannol noeth o'i wirfodd,


rhaid i'r erlyniad brofi bod gan V ddisgwyliad rhesymol o breifatrwydd mewn perthynas â thynnu'r llun. Bydd gan V ddisgwyliad rhesymol o breifatrwydd mewn perthynas â thynnu llun personol wrth fwydo ar y fron yn gyhoeddus neu pan fydd yn noeth neu'n rhannol noeth mewn ystafell newid gyhoeddus neu rannol gyhoeddus.

### Prawf 2: Delweddau a rannwyd yn gyhoeddus yn flaenorol

Mae pobl yn rhannu eu delweddau personol eu hunain yn gyhoeddus neu'n rhoi caniatâd i bobl eraill wneud hynny. Mae lluniau noeth yn cael eu harddangos fel gwaith celf, mae fideos rhywiol yn cael eu rhannu fel pornograffi cydsyniol, mae delweddau o ddillad isaf yn cael eu postio ar gyfryngau cymdeithasol. Mae delweddau sydd ar gael yn gyhoeddus yn aml yn cael eu rhannu; gellir eu hanfon at ffrindiau, eu hargraffu a'u harddangos, eu benthyg ymysg cydweithwyr. Hyd yn oed lle nad yw'r sawl a bortreadir wedi cydsynio i rannu fel hyn, nid yw'n cyfiawnhau troseddoli.

Mae'n llai beius ac yn llai niweidiol oherwydd bod y ddelwedd wedi cael ei rhannu'n gyhoeddus yn flaenorol, gyda chaniatâd y sawl a bortreadir. Ond, yn lle hynny, os cafodd delwedd ei llwytho i fyny i wefan pornograffi heb ganiatâd y sawl a bortreadir, yna gall ail-rannu achosi niwed difrifol. Os yw'r sawl sy'n rhannu'r ddelwedd yn ymwybodol na roddwyd caniatâd ar gyfer ei llwytho i fyny'n wreiddiol, mae'n ymddygiad hynod feius.

Rydym yn argymell y prawf hwn i dynnu allan o'r troseddau rhannu yr ymddygiad llai beius a llai niweidiol lle cafodd delwedd ei rhannu'n gyhoeddus yn flaenorol gyda chaniatâd.



**Ni ddylai fod yn drosedd i berson D rannu delwedd bersonol heb ganiatâd y sawl a bortreadir os:**

(1) yw'r ddelwedd bersonol wedi, neu os ydy D yn credu'n rhesymol bod y ddelwedd bersonol wedi, cael ei rhannu o'r blaen mewn man (boed hynny ar-lein neu all-lein) yr oedd gan aelodau o'r cyhoedd fynediad ato (boed drwy dalu ffi ai peidio), a

(2) naill ai bod y person a bortreadir yn y ddelwedd wedi cydsynio i rannu'r ddelwedd honno yn flaenorol, neu fod D yn credu'n rhesymol bod y sawl a bortreadir yn y ddelwedd wedi cydsynio i'w rhannu'n flaenorol,

(3) oni bai fod y sawl a bortreadir wedi tynnu ei ganiatâd yn ôl yn ddiweddarach i'r ddelwedd fod ar gael i'r cyhoedd a bod D yn gwybod ei fod wedi gwneud hynny.

Yr erlyniad ddylai fod yn gyfrifol am y baich profi cyfreithiol ar gyfer y prawf hwn.




## Caniatâd

Prif nodwedd camddefnyddio delweddau personol yw diffyg cydsyniad. Mae cydsyniad, at ddibenion troseddau rhywiol, yn cael ei ddiffinio o dan adrannau 74 i 76 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, sy'n cynnwys nifer o ragdybiaethau y gellir eu gwrthbrofi ac na ellir eu gwrthbrofi mewn perthynas â chaniatâd y dioddefwr. Yn gyffredinol, roedd yr ymgyngoreion o'r farn bod y rhain yn cael eu deall yn dda ac yn gyfarwydd o fewn y system cyfiawnder troseddol. Felly, rydym yn argymell y dylai'r darpariaethau hyn fod yn berthnasol i'r troseddau delweddau personol.

Mae'n bwysig egluro mai dim ond i'r weithred benodol o dynnu neu rannu'r delweddau dan sylw y mae'r cydsyniad yn berthnasol, ac nid i unrhyw weithredoedd ychwanegol neu ddilynol i'w rhannu.

## Prawf o niwed

Mae camddefnyddio delweddau personol yn achosi amrywiaeth o niwed. Gall dioddefwyr brofi un, rhai, neu bob math o niwed i wahanol raddau. Gall y niwed hwnnw fod yn wahanol i bob unigolyn. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol mynnu prawf o niwed fel rhan o'r troseddau delweddau personol. Byddai gwneud hynny'n achosi problemau sylweddol o ran tystiolaeth, yn cael effaith negyddol ar ddioddefwyr, ac yn y pen draw yn rhwystro erlyniadau llwyddiannus.

Gellir ystyried niwed drwy gydol yr achos, gan gynnwys adeg dedfrydu. Mae cyfleoedd i ddioddefwyr rannu gyda'r llys y niwed maen nhw wedi'i ddioddef a'r effaith mae'r drosedd wedi'i chael ar eu bywydau, er enghraifft yn Natganiad Personol y Dioddefwr.



# Pa weithredoedd ddylai fod yn rhai troseddol?

Ar hyn o bryd, tynnu a rhannu delweddau personol heb ganiatâd yw'r unig weithredoedd sy'n cael eu troseddoli gan droseddau delweddau personol. Nid yw'n drosedd gwneud neu feddu ar ddelwedd bersonol heb ganiatâd.[5] Credwn fod hyn yn briodol ac rydym yn argymell bod y troseddau delweddau personol newydd yn troseddoli'r broses o dynnu a rhannu delweddau personol heb ganiatâd yn unig.[6]

## Tynnu

Mae troseddau presennol yn defnyddio'r termau "tynnu" a "recordio" i ymdrin ag ymddygiad lle mae delwedd yn cael ei chipio mewn unrhyw ffordd. Nid ydy'r rhain wedi'u diffinio'n benodol ac nid ydym wedi clywed tystiolaeth bod hyn wedi achosi unrhyw broblemau. Gwnaethom ofyn a oedd unrhyw fath o dynnu a ddylai gael ei wneud yn drosedd, ac sydd heb gael ei gynnwys yn y telerau hyn. Daethom i'r casgliad fod yr holl ffyrdd priodol o dynnu llun wedi'u cynnwys.

Dylid deall "tynnu" gan ddefnyddio ystyr arferol y term. Dylai gynnwys unrhyw ffordd y caiff delwedd berthnasol ei chynhyrchu, gan gynnwys tynnu llun neu fideo gyda chamera, boed yn ddigidol neu'n analog, a defnyddio dyfais i gipio llun neu fideo, boed gyda chamera neu ap. Dylid hefyd cynnwys "tynnu" llun personol sy'n cael ei addasu ar unwaith gan feddalwedd – megis drwy hidlydd – mewn trosedd "tynnu".

### Copïo fel ffordd o dynnu

Mae technoleg wedi ei gwneud hi'n haws atgynhyrchu delweddau. Gellir tynnu ciplun o ddelwedd sy'n ymddangos ar ddyfais, cadw copi o ddelwedd sydd wedi'i llwytho i lawr, neu greu copi gyda llungopïwr. Copïo delwedd ydy hyn, yn hytrach na thynnu llun gwreiddiol.

Weithiau, bydd delweddau'n cael eu copïo er mwyn cadw fersiwn barhaol o ddelwedd cyn colli mynediad i'r gwreiddiol; er enghraifft, tynnu ciplun o ddelwedd Snapchat sy'n cael ei dileu'n awtomatig ymhen eiliadau. Er bod y ffiniau'n gymhleth, rydym wedi dod i'r casgliad bod hwn yn ymddygiad copïo penodol y cyfeiriwn ato fel "cadw" ac nid "tynnu".

Dylai tynnu ciplun o alwad fideo sy'n cael ei dangos mewn amser real ddod o dan ddiffiniad tynnu, gan fod yr ymddygiad hwn yn creu delwedd "lonydd" nad yw'n bodoli fel arall. Mae'n debycach i dynnu llun "mewn bywyd go iawn". Nid oes gan y sawl a bortreadir unrhyw reolaeth dros yr hyn y mae'r ddelwedd yn ei dangos.

Dylai'r diffiniad o "dynnu" llun ddim ond cynnwys ymddygiad lle, oni bai am weithredoedd neu anweithredoedd y diffynnydd, na fyddai'r ddelwedd yn bodoli fel arall.

5 O oedolion. Mae'n drosedd creu neu feddu ar ddelwedd anweddus o blentyn dan adran 1 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 ac adran 160 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

6 Rydym yn ystyried y weithred o fygwth ar wahân (gweler tudalen 10).

## Rhannu

Ar hyn o bryd, mae un drosedd sy'n gwneud "datgelu" lluniau rhywiol preifat yn drosedd. Mae'n cynnwys ystod ddigon eang o ymddygiadau sy'n gwneud delwedd ar gael i rywun arall. Roedd yr ymgyngoreion yn cefnogi dealltwriaeth gynhwysfawr o rannu er mwyn atal cyflawnwyr rhag manteisio ar fylchau, a chaniatáu ar gyfer datblygiadau technolegol yn y ffordd y gellir rhannu delweddau.

Dylai'r diffiniad o rannu gynnwys pob ymddygiad sydd wedi gwneud y ddelwedd bersonol ar gael yn uniongyrchol i rywun arall. Dylai hyn gynnwys postio ffisegol, dangos neu arddangos, rhannu ar gyfryngau cymdeithasol, negeseuon gan gymheiriaid, sicrhau bod y ddelwedd ar gael yn ddigidol drwy drosglwyddo ffeil, anfon ffeil wedi'i hamgryptio, cadw'r ddelwedd mewn lleoliad penodol a galluogi rhywun i gael mynediad ati, ac anfon dolen neu gyfarwyddiadau eraill ar sut i gael mynediad at y ffeil o'r lle mae'r anfonwr wedi'i storio.

Dylai'r diffiniad o rannu gynnwys rhannu â'r sawl a bortreadir.

Ni ddylai cwmpas trosedd rhannu ymestyn i "rannu eilaidd"; hynny yw, rhannu gwybodaeth ynglŷn â lleoliad delwedd bersonol sydd eisoes wedi'i darparu gan drydydd parti. Er enghraifft, rhannu dolen i wefan lle mae fideo rhywiol wedi'i bostio ar-lein, neu roi cyfarwyddiadau i rywun at hysbysfwrdd sy'n dangos llun rhannol noeth.

Rydym yn cydnabod y gall fod camweithredu yn y dull "eilaidd" hwn o rannu, ond nid ydym o'r farn ei fod mor ddifrifol â'r weithred o sicrhau bod y ddelwedd ar gael yn y lle cyntaf; hynny ddylai fod y ffocws yn y gyfraith trosedd. Byddai cynnwys yr ymddygiad hwn mewn trosedd rhannu yn ehangu cyrhaeddiad y gyfraith trosedd i raddau fel ei bod yn llawer mwy anodd ei gorfodi. Byddai'n dal yn drosedd rhannu'r ddelwedd ei hun, yn hytrach na gwybodaeth am ei lleoliad.

Ni ddylai'r diffiniad o rannu gynnwys "rhannu eilaidd" mewn achosion lle mae person D wedi rhoi gwybod i drydydd person E ble i ddod o hyd i ddelwedd (er enghraifft, drwy anfon dolen i wefan), y mae person arall F wedi'i rhoi yno, nid yw D wedi rhannu'r ddelwedd ei hun nac wedi sicrhau mewn unrhyw ffordd arall fod y ddelwedd ar gael, ac roedd y ddelwedd ar gael i E yn barod.

## Creu

Mae creu yn cynnwys addasu neu wneud delwedd i wneud iddi ymddangos fel pe bai'r unigolyn sy'n cael ei bortreadu yn noeth, yn rhannol noeth, neu'n cymryd rhan mewn gweithred rywiol neu breifat. Gall gynnwys addasu mewn modd rhywiol, creu pornograffi ffug-fanwl a thynnu dillad rhywun yn ddigidol o lun gan ddefnyddio apiau neu wefannau i'w gwneud yn "noeth". Nid yw'n drosedd gwneud delwedd bersonol o oedolyn ar hyn o bryd.

Dywedodd yr ymgyngoreion wrthym y gallai creu delweddau personol fod yn ymddygiad cyffredin ac y gall arwain at niwed sy'n debyg i fathau eraill o gamddefnyddio delweddau personol. Fodd bynnag, o'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed, mae'r rhan fwyaf o'r niwed yn digwydd pan fydd delwedd sydd wedi'i "chreu" yn cael ei rhannu, neu pan fydd bygythiad i'w rhannu. Dylai fod yn drosedd rhannu neu fygwth rhannu delwedd bersonol sydd wedi'i "chreu". Nid ydym yn credu y dylai fod yn drosedd creu delwedd bersonol.

Nid ydym yn argymell trosedd o wneud delwedd bersonol heb ganiatâd. Dylai fod yn drosedd rhannu delweddau personol sy'n cael eu creu, eu gwneud neu eu haddasu.

## Meddiannu a chadw

Nid yw meddiannu neu gadw delwedd bersonol o oedolyn heb ganiatâd yn drosedd ar hyn o bryd. Mae'n drosedd meddu ar ddelweddau anweddus o blant,[7] neu bornograffi eithafol.[8]

Mae gwahanol fathau o feddiannu neu gadw a allai achosi niwed. Rydym yn categoreiddio'r rhain fel a ganlyn:

1. Peidio â chaniatáu meddiannu (er enghraifft, delweddau a gafwyd drwy hacio dyfais neu lwytho i lawr o wefan pornograffi dial)
2. Caniatáu meddiannu diffiniedig (er enghraifft, derbyn delwedd â chyfyngiad amser yn Snapchat)
3. Caniatáu meddiannu amhenodol (er enghraifft, delweddau a rennir yng nghyd-destun perthynas)

Gall cadw delwedd ar ôl i ganiatâd ddod i ben, neu pan nad oedd caniatâd erioed, fod yn ymddygiad gresynus. Gall meddiannu delweddau personol heb ganiatâd achosi niwed a gofid sylweddol i ddioddefwyr. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylai fod yn drosedd. Byddai troseddoli meddiannu neu gadw delweddau yn creu trosedd eang iawn sy'n cynnwys ymddygiad sy'n sylweddol llai beius. Gallai anghofio'r holl lefydd lle mae delwedd yn cael ei storio'n ddigidol roi rhywun mewn perygl o gyflawni trosedd. Nid yw hyn yn briodol.

Mae cynifer o achosion lle mae rhywun yn meddiannu delwedd heb ganiatâd fel nad yw'n ymarferol disgwyl i'r heddlu allu gweithredu ar bob achos. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed pe bai'n drosedd, na fyddai dioddefwyr yn cael y canlyniad y maent ei eisiau.


Bydd llawer o achosion o feddiannu yn llai niweidiol o lawer na mathau eraill o gamddefnyddio delweddau personol. Yr ymddygiad mwyaf niweidiol ydy pan fydd y delweddau a gedwir yn cael eu rhannu, neu pan fydd y sawl sydd wedi'u cadw yn bygwth eu rhannu. Byddai'r ymddygiad hwn yn cael ei gynnwys yn y troseddau rydyn ni'n eu hargymell o ran rhannu delwedd bersonol heb ganiatâd a bygwth rhannu delwedd bersonol. Rydym hefyd yn teimlo y gellir achosi niwed go iawn wrth anfon delwedd a gedwir at y sawl sy'n cael ei bortreadu, a oedd yn credu fod y ddelwedd wedi'i dileu neu wedi gofyn i'r ddelwedd gael ei dileu. Dylai hon fod yn drosedd rhannu.

7 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, a 160.

8 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, a 63.

# Plant a phobl ifanc

Mae'r system cyfiawnder troseddol yn cydnabod bod angen trin plant a phobl ifanc weithiau yn wahanol i oedolion, boed hynny fel dioddefwyr, tystion a chyflawnwyr. Mae mesurau drwy'r gyfraith trosedd i adlewyrchu hyn. Er enghraifft, mae canllawiau i erlynwyr ar benderfyniadau ynghylch cyhuddo sy'n ymwneud â diffynyddion sy'n blant, rheolau arbennig ar gyfer dedfrydu plant, a llys ieuenctid arbennig ar gyfer diffynyddion sy'n blant. Ar hyn o bryd, mae'r troseddau delweddau personol yn berthnasol i gyflawnwyr a dioddefwyr o bob oed.



plentyn ydy unrhyw un **dan 18 oed**

Yn ystod yr ymgynghoriad, clywsom bryderon fod perygl i'n troseddau arfaethedig or-droseddoli plant. Awgrymodd yr ymgyngoreion nad yw ymddygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn gamddefnyddio delweddau personol gan oedolyn o reidrwydd yn gamddefnydd gan blant. Efallai bod plant yn rhy ifanc i ddeall bod yr ymddygiad yn amhriodol neu â chysylltiadau rhywiol. Efallai y byddant yn credu bod yr ymddygiad yn ddoniol neu efallai eu bod yn gwneud eu gorau i ffitio i mewn. Roedd cefnogaeth hefyd i gadw plant allan o'r system cyfiawnder troseddol lle bo modd yn sgil yr effaith hirdymor ac anghymesur y gall ei chael.

Clywsom hefyd am y niwed sylweddol sy'n cael ei achosi i ddioddefwyr sy'n blant, a dioddefwyr cyflawnwyr sy'n blant. Er enghraifft, clywsom fod athrawon mewn perygl arbennig o gael tynnu eu llun/fideo o dan ddillad gan fyfyrwyr, neu fod yn destun lluniau ffug-fanwl wedi'u rhywioli sy'n cael eu creu a'u rhannu ymysg disgyblion mewn dosbarthiadau. Er bod gan ymgyngoreion safbwyntiau gwahanol ynghylch pa mor gyffredin yw camddefnyddio delweddau personol ymysg plant, rydym wedi clywed tystiolaeth bod delweddau noeth neu rannol noeth o blant yn cael eu rhannu'n rheolaidd ymysg grwpiau cyfoedion heb ganiatâd. Mae ymchwil hefyd sy'n awgrymu bod plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o ddioddef yn sgil camddefnyddio delweddau personol na grwpiau oedran eraill.[9]

> **"Rhaid herio'r normau niweidiol sy'n galluogi camddefnyddio delweddau personol er mwyn creu amgylcheddau diogel i blant sydd mewn perygl o gael eu herlid. Bydd hyn yn gofyn am gyfuniad o newid mewn addysg a diwylliant, a ddylai fynd i'r afael â'r diwylliant o gadw'n dawel ynghylch y pwysau rhywiol sy'n bodoli ymysg pobl ifanc yn ogystal â hyrwyddo disgwyliadau iach am ryw a chydsyniad."**
>
> The Howard League for Penal Reform

9 Elena Sharratt, "Intimate image abuse in adults and under 18s" (2019) ar t 9 **https://swgfl.org.uk/assets/documents/intimate-image-abuse-in-adults-and-under-18s.pdf**.

Rydym wedi ystyried y dadleuon yn ofalus ac wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol i'r troseddau delweddau personol barhau i fod yn berthnasol i gyflawnwyr a dioddefwyr o bob oed. Mae'r system cyfiawnder troseddol, yn enwedig y system cyfiawnder ieuenctid, wedi'i chynllunio i ymateb i'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwneud plant yn droseddwyr. Y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â throseddoli plant am gamddefnyddio delweddau personol yw sicrhau bod:

- y troseddau'n glir ac wedi'u diffinio'n dda;
- achosion sy'n ymwneud â phlant ddim ond yn cael eu herlyn pan fydd hynny er budd y cyhoedd (byddai canllawiau erlyn digon cadarn yn helpu i sicrhau hyn);
- darpariaethau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r cyflawnwyr a dioddefwyr sy'n blant, a chynnig dewisiadau eraill yn lle ymateb cyfiawnder troseddol ffurfiol, gweithredu'n effeithiol; a
- bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu hyfforddi a'u haddysgu i gael dealltwriaeth dda o gamddefnyddio delweddau personol, a throseddau sy'n ymwneud â delweddau personol.



# Manylion Cyswllt

drwy e-bost:
**imageabuse@lawcommission.gov.uk**

drwy'r post:
Intimate Image Abuse Team,
Law Commission,
1st Floor, 52 Queen Anne's Gate,
Llundain, SW1H 9AG.

Find out more at design102.co.uk
Design that makes a difference